| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **28 Mehefin 2021** |
| **TEITL** | **Dyraniad Cynnal Tiroedd Ysgolion** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo ymgynghori ar newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23** |
| **AWDUR** | **Owen Owens**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |

1 <u>Cyllid Cynnal Tiroedd Ysgolion</u>

Mae cyllid cynnal tiroedd yn cael ei ddyrannu i ysgolion ar sail hanesyddol ar hyn o bryd. Yn 2021-22, dyrannwyd cyfanswm o £422,371 i ysgolion - £207,021 (safleoedd uwchradd), £6,920 (safleoedd arbennig) a £208,430 (safleoedd cynradd).

2 <u>Ail-fodelu dyraniadau ysgolion</u>

Yng nghyfarfod Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd, 2018, cyflwynwyd eitem ar 'Ddull Dyrannu Cyllid Cynnal Tiroedd Ysgolion' oedd yn cyflwyno'r bwriad o ail-fodelu dyraniadau ysgolion i fod yn agosach i fod ar sail anghenion y safleoedd yn hytrach nac ar sail hanesyddol. Mae cofnod y cyfarfod yn dweud '*Nodwyd nad yw'r fforwm yn anghytuno mewn egwyddor ond fod angen rhagrybuddio ysgolion os yn cael llai o arian. Nodwyd y byddai angen ail-ymweld â chost y Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal Tiroedd canolog wrth gyflwyno'r dull dyrannu newydd*.'

Yn ystod y rownd o gynnig cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer Mawrth 2021, cynigwyd estyniad ar y CLG Cynnal Tiroedd am flwyddyn ychwanegol gan fod y gwaith yn parhau o fodelu dyraniadau ar gyfer Cynnal Tiroedd i ysgolion fel eu bod yn adlewyrchu'n well ofynion cynnal tiroedd y safleoedd unigol.

Erbyn hyn, mae'r gwaith o adnabod yr Oriau Craidd sydd eu hangen ar gyfer cynnal tiroedd pob ysgol bron wedi'i gwblhau. Mae colofn yn **Atodiad 1** yn cyfeirio at Oriau Craidd pob ysgol. Lle nad yw'r ffigur ar gyfer Oriau Craidd ysgol wedi'i gadarnhau eto, fe amlygir hynny.

Diffinnir Oriau Craidd safle fel yr oriau gwaith cynnal tiroedd fyddai ei angen er mwyn sicrhau gwasanaeth o lefel priodol sydd yn ddigonol/addas i gynnal digwyddiadau a gynhelir, sicrhau lles a diogelwch y disgyblion ynghyd â chynnal safon weledol a chadwriaethol y safle.

3 Modelau dyrannu posib

Model 1

Cymryd ***dyraniad cynnal tiroedd presennol fesul sector*** ysgol a'i ail-ddosbarthu o fewn y sector mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd y safleoedd unigol yn y sector

Model 2

Cymryd ***cyfanswm y dyraniad cynnal tiroedd presennol*** i ysgolion a'i ail-ddosbarthu i ysgolion mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd safleoedd yr ysgolion unigol.

Mae **Atodiad 1** yn dangos yr effaith fesul ysgol o ddefnyddio'r ddau fodel uchod mewn cymhariaeth â dyraniad cyllid cynnal tiroedd 2021-22.

4 Ymgynghori

Fel y nodwyd uchod, mae cofnod cyfarfod Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd, 2018 yn dweud '*Nodwyd nad yw'r fforwm yn anghytuno mewn egwyddor ond fod angen rhagrybuddio ysgolion os yn cael llai o arian'*.

Felly, bwriedir ymgynghori â phob ysgol ynglŷn â'u cefnogaeth (neu beidio) i newid y dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd presennol.

Os ydynt o blaid newid, gofynnir iddynt nodi os ydynt yn ffafrio Model 1 ynteu Model 2.

Bydd yr ymgynghori hefyd yn gwahodd unrhyw sylwadau fyddai'r ysgolion yn dymuno eu cyflwyno mewn perthynas â'r bwriad i newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion.

5 Argymhelliad

Bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn cymeradwyo ymgynghoriad gydag ysgolion ar y bwriad i newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.